

# Yn poeni am arian?

Dydych chi ddim ar eich pen eich hun. Mae pryderon ariannol yn fwy cyffredin nag y mae'r rhan fwyaf ohonom yn ei sylweddoli. Gallai fod yn ostyngiad annisgwyl mewn incwm, biliau'n dechrau pentyrru, neu'n ei chael hi'n anoddach i dalu am y pethau sylfaenol - gall y materion hyn effeithio ar unrhyw un.

**Cofiwch, mae mwy o help ar gael nag y byddech chi'n ei feddwl. Mae yna bobl a sefydliadau a all helpu gyda rhai o'r problemau ariannol mwyaf cyffredin. Gallai'r rhain gynnwys:**

- Gwirio i weld a oes gennych hawl i gael mwy o arian mewn budd-daliadau neu grantiau bach.
- Helpu i leihau costau hanfodol a chysylltu â chymorth lleol.
- Cyngor ar reoli dyledion a ffyrdd o leihau eich ad-daliadau.
- Helpu i ddychwelyd i'r gwaith neu i gyflogaeth fwy diogel.
- Cymorth i'ch helpu i aros yn eich cartref.

Os ydych yn cael trafferth, mae bob amser yn well gofyn am gymorth a chyngor yn gynt yn hytrach nag yn hwyrach – ond nid yw byth yn rhy hwyr i ofyn am help. Efallai y byddwch yn synnu faint y gellir ei wneud i'ch helpu i ddod nôl ar eich traed.

Mae gennym ganllaw byr i'ch helpu i weld y mathau o gymorth a chefnogaeth sydd ar gael, gyda manylion sefydliadau cenedlaethol yn ogystal â chysylltiadau lleol. Efallai y bydd cymorth ar gael mewn mannau na fyddech efallai'n eu disgwyl. Ewch i: **www.monmouthshire.gov.uk/cy/materion-arian/**

Os nad ydych yn siŵr ble i ddechrau, mae lleoedd fel Cyngor ar Bopeth neu'ch landlord (os ydych yn denant tai cymdeithasol) yn lle gwych i ddod o hyd i'r holl gymorth a chefnogaeth sy'n iawn i chi.

Gallwch hefyd ffonio canolfan gyswllt Cyngor Sir Fynwy neu gerdded i mewn i unrhyw un o Hybiau Cymunedol y cyngor yn Y Fenni, Cil-y-coed, Cas-gwent, Trefynwy neu Frynbuga, lle bydd staff yn hapus i gael sgwrs â chi am y cymorth gwahanol y gallech ei gael.

monmouthshire
sir fynwy

**01633 644644**

@MonmouthshireCC

**monmouthshire.gov.uk/cy/materion-arian**

mewn partneriaeth â:
**Y Fenni: 01873 856466**
**Cil-y-coed: 01291 422119**
**Cas-gwent: 01291 622185**
**Trefynwy: 01600 773297**

**citizensadvice.org.uk/wales**

cyngor ar bopeth